Adran Busnes,
Ynni & Strategaeth
Ddiwydiannol

# MAE'N RHAID GWEITHREDU NAWR

# YDYCH CHI'N BAROD AM REOLAU NEWYDD AR GYFER BUSNES GYDA'R UE?



DARGANFYDDWCH BETH SYDD ANGEN I CHI EI WNEUD DRWY DDEFNYDDIO'R OFFERYN GWIRIO

GOV.UK/AGRIFOOD-2021

Gwiriwch
Newidiwch
Ewch

## Neges frys gan yr Ysgrifennydd Busnes

Dim ond ychydig **dros fis** sydd i fynd bellach tan ddiwedd y cyfnod pontio a bydd rheolau newydd i ddilyn o'r 1af o Ionawr 2021 ymlaen. Fel yr Ysgrifennydd Busnes, rwy'n eich annog i **WEITHREDU NAWR** i osgoi ymyriadau i weithrediadau eich busnes pan ddaw'r cyfnod pontio i ben.

Fel busnes yn y sector bwyd-amaeth a bioddiogelwch, gallwch ddarganfod beth sydd angen i chi wneud wrth fynd at gov.uk/retail-2021. Y prif gamau y gallwch eu cymryd nawr i baratoi ar gyfer hyn yw:

1. **Cofrestrwch i gyflwyno Tystysgrifau Iechyd Allforio (EHCs) a deall y gwiriadau a wneir ar y ffin o ran anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid i'w hallforio.**
   Ni fyddwch yn gallu allforio anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid i'r UE o'r 1af o Ionawr 2021 oni bai eich bod yn cofrestru i gyflwyno Tystysgrifau Iechyd Allforio gan ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein newydd, a sicrhau eich bod yn deall y gwiriadau angenrheidiol ar y ffin.

2. **Defnyddio dogfennaeth newydd a deall y prosesau i fewnforio ac allforio cynhyrchion planhigion (gan gynnwys ffrwythau a llysiau)**
   Er mwyn parhau i fewnforio ac allforio planhigion a chynhyrchion planhigion gyda'r UE o'r 1af o Ionawr 2021, bydd rhaid i chi ddefnyddio dogfennau newydd a deall y prosesau newydd ar y ffin.

3. **Sicrhewch bod eich nwyddau yn cydymffurfio â'r gofynion labelu bwyd newydd o'r 1af o Ionawr 2021.**
   Mae perygl na fyddwch yn gallu gwerthu eich cynnyrch bwyd a diod yn yr UE o'r 1af o Ionawr 2021 os na fodlonir y gofynion labelu.

4. **Os ydych yn symud nwyddau i mewn i, allan o, neu drwy Ogledd Iwerddon.**
   Daw Protocol Gogledd Iwerddon i rym ar ddiwedd y cyfnod pontio. Bydd yna ddarpariaethau arbennig a fydd yn berthnasol i Ogledd Iwerddon yn unig, felly os ydych yn symud nwyddau i mewn i, allan o, neu drwy Ogledd Iwerddon, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r cyfarwyddyd diweddaraf ar: gov.uk/northern-ireland-trade

**GALL Y NEWIDIADAU GYMRYD MWY O AMSER I'W GWEITHREDU NAG YR YDYCH CHI'N MEDDWL, FELLY DECHREUWCH HEDDIW.**

Mae'r Llywodraeth yn darparu amrywiaeth o gefnogaeth, gan gynnwys webinarau i'ch arwain drwy'r newidiadau. Mae'r rhain ar gael i'w gwylio ar: **gov.uk/transition-webinars**. Dylech hefyd wirio gyda'ch cyflenwyr a'ch cwsmeriaid eu bod nhw hefyd yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol.

Mae hwn yn gyfnod heriol, ond mae'r cyfnod pontio yn dod i ben ar yr 31ain o Ragfyr 2020 ac **NI FYDD ESTYNIAD**. Oni bai eich bod yn gweithredu nawr, mae risg y bydd ymyriadau i weithrediadau eich busnes. Bydd y Llywodraeth yno i'ch helpu i gymryd mantais o'r nifer o gyfleoedd newydd a ddaw yn sgil bod yn genedl fasnachu annibynnol.

Yn gywir,

**Yr Gwir Anh. Alok Sharma MP**
Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes,
Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

**SGANIWCH I WRANDO**
**AR EIN GWEMINARAU**

- Gwiriwch
- Newidiwch
- Ewch

Adran Busnes,
Ynni & Strategaeth
Ddiwydiannol

**MAE RHEOLAU NEWYDD AR GYFER BUSNES GYDAG EWROP YN DECHRAU AR 01 INOAW 2021**

MAE CAMAU SYDD ANGEN I'CH BUSNES EU CYMRYD NAWR AR GOV.UK/AGRIFOOD-2021